



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cynyddu defnydd mewnol o'r Gymraeg; Strategaeth Llywodraeth Cymru

Cymraeg-mae'n perthyn i ni i gyd

Mehefin 2022

Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (y Llywodraeth) strategaeth ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, [Cymraeg-Mae'n perthyn i ni i gyd](#). Mae gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer yr iaith Gymraeg wedi'i hamlinellu yn eu strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg sydd yn cynnwys ymrwymiad i "[...] arwain drwy esiampl drwy hybu a hwyluso cynnydd yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg gan ein gweithlu ein hunain".

Nod y Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg o fewn y sefydliad yw y bydd eu holl staff yn deall Cymraeg erbyn 2050. Bydd hyn yn galluogi'r staff i weithio yn y Gymraeg o ddydd i ddydd, gyda golwg ar weld cynnydd sylweddol yn y defnydd a wneir o'r iaith o ganlyniad i hynny. Am gopi llawn, gweler [Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd \[HTML\]](#) | [LLYW.CYMRU](#)

Cefndir

Nid oedd gan y Llywodraeth strategaeth ddigonol ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg yn flaenorol i osod gweledigaeth heriol a phellgyrhaeddol ar gyfer dod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog. Roedd dyletswydd arnynt i ddatblygu polisi ar sut y byddent yn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol dan safon 98 [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 1\) 2015](#).

Cafwyd cyfeiriad clir gan y strategaeth **Cymraeg 2050** y byddai defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn rhoi mwy o bwrpas a pherthnasedd i'r iaith, a byddai hyn yn arbennig o wir yn achos y rhai sy'n dysgu Cymraeg. Drwy fabwysiadu strategaeth fewnol oedd yn amlygu gwerth y Gymraeg yn y gweithle, y bwriad oedd y byddai mwy o blant a phobl ifanc yn gwerthfawrogi bod y gallu i siarad Cymraeg yn sgil ddefnyddiol, nawr ac yn y dyfodol. Ymhellach, roedd maniffesto'r Prif Weinidog i ddod yn arweinydd Llafur yng Nghymru yn nodi ymrwymiad i: "Brif-ffrydio hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg trwy holl weithgaredd y Llywodraeth, ar lefel Llywodraeth Cymru a Llywodraeth leol."

Y gwaith a wnaethpwyd

Roedd datblygu'r strategaeth yn golygu gwaith tymor hir gan ystod o gydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad. Sefydlwyd grwpiau trafod o Uwch Weision Sifil i drafod y weledigaeth, a daeth yr Ysgrifennydd Parhaol a grwpiau o gydweithwyr ynghyd mewn sesiynau herio i symud y gwaith ymlaen. Cytunwyd y byddai 5 gweithgor yn cael eu ffurfio ar gyfer y ffrydiau gwaith canlynol:

- Cynllunio a recriwtio'r gweithlu;
- Hyfforddiant;
- Technoleg ac effeithlonrwydd;
- Cyfathrebu, arferion mewnol a gwyddoniaeth ymddygiadol; a
- Ffactorau ac ystadegau allanol.

Ymgynghorwyd gyda'r undebau llafur o'r cychwyn cyntaf, gyda chynrychiolwyr yn cael eu gwahodd i eistedd ar y ffrydiau gwaith i ddatblygu'r strategaeth. Ymgysylltwyd gydag amryw o rwydweithiau staff gan gynnwys y Rhwydwaith Ymwybyddiaeth a Chefnogi Anabled a'r Rwydwaith Staff Lleiafrifoedd Ethnig. Drwy sicrhau perchnogaeth staff allweddol a chael trafodaethau gonest llwyddwyd i sicrhau cefnogaeth y sefydliad. Er mwyn dysgu o brofiadau sefydliadau eraill cynhaliwyd trafodaethau gyda Heddlu De Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn, Comisiwn y Senedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Roedd hyn yn golygu newid i bolisiau a systemau adnoddau dynol, a maes o law bydd y polisiau recriwtio hefyd angen eu diwygio i wireddu'r weledigaeth. Byddan nhw'n dechrau gyda'r Uwch Wasanaeth Sifil er mwyn iddynt ddangos arweiniad i weddill y sefydliad. Bwriedir recriwtio mwy o bobl sydd eisoes yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg dros amser. Maen nhw wedi dileu'r gofyniad i gyflwyno achos busnes dros ddysgu Gymraeg o'r meini prawf derbyn ar gyfer y polisi dysgu Gymraeg.

Cynhaliwyd ymgyrch gyfathrebu wrth lansio'r strategaeth a rhannodd yr Ysgrifennydd Parhaol friff manwl gyda'r Uwch Wasanaeth Sifil i gyflwyno'r strategaeth a'r hyn oedd yn ddisgwyliedig ohonynt fel arweinwyr yn y sefydliad.

Prif nod y strategaeth yw galluogi Llywodraeth Cymru i ddod yn sefydliad dwyieithog, ac maen nhw wedi gosod amcan cychwynnol ar gyfer y bum mlynedd gyntaf, sef dod yn sefydliad sy'n dangos esiampwl wrth gynyddu defnydd o'r Gymraeg ymhlith cyrff gyda nodweddion tebyg. I gyflawni'r amcan mae nhw wedi gosod deg cam gweithredu. Mae'r chweched yn ymwneud â chynllunio gweithlu ac i roi ystyriaeth ddwys i ofynion sgiliau iaith Gymraeg mewn swyddi gwag a newydd yn dilyn cynnal adolygiad o'r prosesau asesu presennol.

Fe ddwedent, *'Erbyn hyn, nid yw'r ymadrodd "nid yw sgiliau Gymraeg yn angenrheidiol", a ddefnyddir wrth hysbysebu swyddi, yn adlewyrchu gofynion nac ethos y sefydliad'*.

Canlyniadau hyd yma

Tra bydd nod hir dymor y strategaeth yn golygu newid yn raddol, bydd y sefydliad yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- Gwneud ymrwymiad hirdymor ac arwain y ffordd: newid yn raddol, dros amser, arwain trwy esiampl yn y gweithle;
- Buddsoddi yn eu staff a chynnig cyfleoedd iddynt ddysgu Cymraeg a meithrin sgiliau ieithyddol: mae'n hanfodol darparu hyfforddiant effeithiol a hwylus, gan roi amser a chymhellant i bobl wella'u sgiliau Cymraeg yn barhaus;
- Parhau i fod yn sefydliad agored, cynhwysol ac amrywiol: mae gan bawb y potensial i fod yn siaradwr Cymraeg. Er y bydd sgiliau Cymraeg yn fwyfwy angenrheidiol ar gyfer nifer cynyddol o swyddi, nid yw meithrin gweithle dwyieithog yn awgrymu bod y sgiliau hynny'n ofynnol ar gyfer ymuno â Llywodraeth Cymru; a
- Mynd ati yn rheolaidd i adolygu ffyrdd o weithio er mwyn hwyluso mwy o ddefnydd o'r Gymraeg: pan yn cyflwyno polisiau a mentrau mewnol newydd, pennwyd deg cam gweithredu yn y strategaeth a fydd yn eu helpu i gwrdd â'r amcan i ddod yn sefydliad sydd yn dangos esiampl yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Mae eu hystadegau dysgu a datblygu yn dangos cynnydd aruthrol yn y nifer dysgwyr ers lansio'r strategaeth a chynnig gwersi ar ffurf mwy eang a hyblyg ym mis Ebrill 2020. Rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 derbyniwyd 213 o geisiadau ar gyfer dysgu Cymraeg. Gwelwyd 890 o geisiadau i ddysgu Cymraeg yn cael eu cofrestru rhwng Ebrill 2020 a Rhagfyr 2021. Adroddwyd y derbyniwyd ymateb positif yn gyffredinol, gyda'r mwyafrif llethol yn gweld gwerth y strategaeth ac yn ei gweld yn gyson gyda chyfeiriad a gweledigaeth Gweinidogion Cymru.

Mae'r strategaeth yn rhagweld y bydd yn cyrraedd ei nod ymhen 30 mlynedd a mwy, felly am resymau amlwg bydd angen i'r strategaeth gael ei hadolygu a'i newid o dro i dro. Maen nhw'n rhagweld proses lle caiff y strategaeth, ynghyd â'r newidiadau yn y polisiau a roddir ar waith, eu hadolygu bob pum mlynedd. Yn ogystal â gosod nod hirdymor ar gyfer 2050, mae amcan tymor byrrach hefyd wedi'i osod ar gyfer y cyfnod hyd at 2025 ynghyd â deg cam gweithredu i gwrdd â'r amcan hwnnw.

Sut gall hyn weithio i sefydliadau eraill?

Mae [Cod Ymarfer Rheoliadau Rhif 1](#) yn rhestru'r ystyriaethau sy'n berthnasol wrth lunio polisi ar hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac yn nodi y dylai fod yn gymesur gyda maint y sefydliad. Dywedodd Llywodraeth Cymru y bu'n holl bwysig

trafod gyda sefydliadau eraill oedd wedi cytuno strategaethau uchelgeisiol a dysgu o'u profiadau hwy. Maen nhw'n awyddus nawr i rannu eu profiadau hwythau, ac yn croesawu cyfleoedd i drafod y gwaith gyda sefydliadau eraill.

Manylion cyswllt

Sefydliad:	Llywodraeth Cymru
E-bost:	Safonau.Standards@llyw.cymru
Swyddog cyswllt:	Bethan Griffiths & Dylan Williams

Barn Comisiynydd y Gymraeg

Mae angen i sefydliadau greu mwy o gyfleoedd pwrpasol i alluogi aelodau'r gweithlu ddefnyddio'r Gymraeg, gan ystyried beth yw'r rhwystrau rhag ei defnyddio os mai honno yw'r iaith leiafrifol ymhlith staff y sefydliad.

Mae'r safon ar gyfer datblygu a chyhoeddi polisi o'r fath i'w gweld yn hysbysiadau cydymffurfio cyrff ym mhob sector hyd yma ac mae Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i lunio un uchelgeisiol a phellgyrhaeddol. Er nad yw Comisiynydd y Gymraeg yn cymeradwyo'r polisiau hyn, mae'n ddull arwyddocaol all hefyd alluogi sefydliadau i gynnig mwy o wasanaethau i'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn anelu at fod mor uchelgeisiol â phosib a manteisio ar wahoddiad Llywodraeth Cymru i ddod i gyswllt er mwyn rhannu eu profiadau am y broses o ddatblygu'r strategaeth a'r canlyniadau y gellir eu disgwyl.